Rhwydwaith Cymunedau Arfordirol
Gweithdy Tri – Adroddiad Cryno
Mehefin 2004

Prosiect a ariannwyd gan INTERREG IIIA yw CoCoNet (Rhwydwaith Cymunedau Arfordirol) a weithredir gan bartneriaid prosiect yng Nghanolfan Adnoddau Arfordirol a Morol Coleg y Brifysgol Corc (CRMC) a Grŵp Amgylchedd Morol ac Arfordirol, Prifysgol Caerdydd (MACE).

Nodau prosiect CoCoNet

Nodau CoCoNet yw:

- Hwyluso rhwydweithio a chyfathrebu ymhlith cymunedau arfordirol.
- Archwilio mecanweithiau i roi i gymunedau arfordirol deimlad gwirioneddol o gyfranogi, ac o fod yn rhan o reolaeth yr ardal arfordirol a morol yn y dyfodol.

Trwy gynnal cyfres o Weithdai bydd CoCoNet yn helpu codi ymwybyddiaeth am faterion Rheolaeth Arfordirol Integredig, gwella dealltwriaeth o amgylcheddau morol ac arfordirol a rhoi cyfleoedd i randdeiliaid i rannu profiadau.

Cynhaliwyd trydydd gweithdy CoCoNet yn Wexford, Iwerddon ar 17 Mehefin 2004. Llywyddwyd y gweithdy ar y cyd â phrosiect Rhwydwaith Rheolaeth ar Barthau Arfordirol (CZMNet). Cynhaliwyd gweithdai blaenorol yn Aberystwyth (2 a 3 Ebrill 2004) a Howth, Swydd Dulyn, Iwerddon (30 a 31 Ionawr 2004). Gellir cael yr adroddiadau cyflawn a'r cyflwyniadau ar gyfer pob gweithdy trwy lawrlwytho pdf o wefan CoCoNet ar http://coconet.ucc.ie.

Prosiect CZMNet

Ariannwyd prosiect CZMNet hefyd gan INTERREG IIIA. Nod prosiect CZMNet yw datblygu rhwydwaith o gynllunwyr Awdurdodau Lleol. Wrth wneud hynny, nod CZMNet yw annog a hwyluso cydweithrediad agosach rhwng Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac Iwerddon ym maes rheolaeth ar barthau arfordirol. Bydd CZMNet yn darparu mecanwaith ar gyfer rhannu profiadau a gwybodaeth am reolaeth ar barthau arfordirol.
Y partneriaid prosiect yw Enterprise Ireland a Chyngor Sir Gaerfyrddin.

Roedd gweithdy olaf CoCoNet/CZMNet yn gyfle delfrydol i ddod â chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol a grwpiau cymunedol at ei gilydd ac i hwyluso trafodaethau ar ddatblygu Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM) yn ardal De Môr Iwerddon.

Gweithdy Tri

Cynhaliwyd trydydd gweithdy CoCoNet yn Wexford, Iwerddon ar 17 Mehefin 2004. Nodau'r gweithdy oedd

1. Gwerthuso rôl rhwydweithiau i gynorthwyo Awdurdodau Lleol a chymunedau arfordirol i reoli eu harfordiroedd yn well.
2. Archwilio perthnasedd y rhwydweithiau arfordirol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn ardal De Môr Iwerddon.
3. Hwyluso datblygu syniadau ar gyfer prosiectau newydd i gyflawni datblygiad arfordirol cynaliadwy yn ardal De Môr Iwerddon.
4. Llunio argymhellion ar ICZM i ddylanwadu ar ddatblygu polisi yng Nghymru ac Iwerddon.

Roedd y gweithdy yn cynnwys cyflwyniadau addysgiadol ac fe'i dilynwyd gan sesiynau cyfranogol yn cynnwys trafodaethau ar sail is-grwpiau a'r cyfarfod llawn. Fel yn y gweithdai blaenorol fe'u mynychwyd gan groestoriad da o randdeiliaid arfordirol allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol, partneriaethau arfordirol, Awdurdodau Lleol o ardal De Môr Iwerddon, cyrff anllywodraethol, asiantaethau statudol a sefydliadau academaidd. Roedd y rhaglen yn cynnwys sesiynau wedi'u neilltuo i *Achos Meddwl, Potensial Rhwydweithiau Arfordirol, Prosiectau ar gyfer y Dyfodol* ac *Argymhellion.*

Roedd **Sesiwn Un** yn cynnwys dau gyflwyniad. Gwnaeth y siaradwr cyntaf rannu gwybodaeth ar gyfeiriad tebygol ICZM yn Ewrop. Roedd yr ail gyflwyniad yn canolbwyntio ar ymagweddau cymunedol at ICZM a chrybwyllwyd enghreifftiau o fentrau cymunedol yn UDA ac Ewrop.

Testunau'r Cyflwyniadau: Sesiwn Un

- Dyfodol ICZM yn Ewrop
- Gwersi a Ddysgwyd o Ymagweddau Cymunedol ar Reolaeth Arfordirol yn UDA a Croatia

Sesiwn Dau - Yn y sesiwn hon roedd y cyflwyniadau'n canolbwyntio ar rwydweithiau arfordirol a'r siaradwyr yn cynnig enghreifftiau o, a gwybodaeth am rwydweithiau sy'n gweithredu ar lefelau is-genedlaethol, cenedlaethol ac Ewropeaidd. Dilynwyd y cyflwyniadau gan drafodaethau'r cyfarfod llawn ar rôl rwydweithiau mewn rheolaeth arfordirol yn y dyfodol.

Testunau'r Cyflwyniadau: Sesiwn Dau

- Statws a Chyflawniadau CZMNet
- Statws a Chyflawniadau CoCoNet
- Rhwydweithiau mewn Rheolaeth Arfordirol Integredig
- Ymarferwyr Arfordirol: Adeiladu ar Brofiadau Rhanbarthol ar draws Ewrop
- Yr Angen am Bartneriaethau Arfordirol a Rôl Rhwydwaith Arfordirol y DU, CoastNet.

Cynhwysir crynodebau o gyflwyniadau Sesiynau Un a Dau yn adroddiad llawn y gweithdy, ac yn ogystal, mae cyflwyniadau PowerPoint y siaradwyr ar gael ar wefan CoCoNet (http://coconet.ucc.ie).

Sesiwn Tri – Roedd y cyfle i ddirprwyon drafod mentrau ar gyfer y dyfodol yn rhan bwysig o'r gweithdy. Am y rheswm hwn, cynhaliwyd sesiwn arbennig yn canolbwyntio ar brosiectau ar gyfer y dyfodol yn y prynhawn. Yn ystod y

sesiwn hon rhannwyd y dirprwyon yn bedwar is-grŵp gyda hwylusydd ym mhob grŵp i lywio a chanolbwyntio trafodaethau, tra oedd rhywun arall yn nodi'r prif bwyntiau ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod llawn.

Roedd rhaid i un grŵp drafod un o'r testunau a nodir isod.

- Datblygu cynnig i godi ymwybyddiaeth am Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs) morol a materion bioamrywiaeth arfordirol
- Gweithio tuag at rwydwaith arfordirol i lwerddon
- Sut i hwyluso cyfranogiad y cyhoedd yn ICZM yn lleol
- Sut i lywio datblygu polisi cenedlaethol

Sesiwn Pedwar – Yn ystod y gweithdy rhoddwyd rhestr o argymhellion arfaethedig ynghylch ICZM i'r cyfranogwyr i'w hystyried. Gofynnwyd i'r dirprwyon restru'r tri argymhelliad pwysicaf. Yn dilyn y gweithdy, dadansoddwyd y dewisiadau. Roedd y prif argymhellion a godwyd yn canolbwyntio ar *integreiddio, gwella cynnydd* ac addysg. Daeth y diwrnod i ben wrth i'r cyfarfod llawn drafod datganiad drafft Wexford. Caniataodd hyn fewnbwn gan y dirprwyon ar eiriad penodol y Datganiad a'i ledaeniad.

Canlyniad gweithdy olaf CoCoNet/CZMnet oedd rhoi diweddglo llwyddiannus i'r ddau brosiect. Yr oedd tri phrif allbwn o'r gweithdy:

1. Ymgododd cynllun ar gyfer prosiect newydd i ddilyn CoCoNet o'r gweithdy. Cyflwynir cynnig i raglen INTERREG IIIA i ddatblygu prosiect peilot i godi ymwybyddiaeth am SACs morol a materion yn ymwneud â bioamrywiaeth arfordirol. Bydd y prosiect yn cynnwys Awdurdodau Lleol ar naill lan Môr lwerddon a'r llall (Cyngor Sir Fingal a Chyngor Sir Gwynedd) yn cydweithio â rhanddeiliaid cymunedol lleol. Bydd y weledigaeth ar gyfer y prosiect yn cynnwys cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol a grwpiau cymunedau arfordirol a anogwyd gan weithdy CZMNet/CoCoNet ar y cyd.

2. Roedd pawb yn unfrydol yn eu cydnabyddiaeth o bwysigrwydd rhwydweithiau i hyrwyddo mentrau rheolaeth arfordirol a'u cefnogaeth i greu rhwydwaith arfordirol ar gyfer lwerddon. Cytunwyd i fynd ar drywydd sefydlu rhwydwaith cenedlaethol gyda'r amcan o hyrwyddo gweithredu datblygiad cynaliadwy o Arfordir lwerddon. Cytunwyd y byddai gweithgor craidd yn symud trafodaethau yn eu blaen yn ystod yr haf.

3. Cytunwyd ar gynnwys Datganiad Wexford (http://coconet.ucc.ie) ac ar briodoldeb defnyddio'r Datganiad i hysbysu gwneuthurwyr polisïau'n ymwneud â'r arfordir o'r blaenoriaethau ar gyfer rheolaeth arfordirol a nodwyd ym mhrosiectau CoCoNet a CZMNet. Cytunwyd i ledaenu'r Datganiad yn eang wedi'r gweithdy er mwyn codi ymwybyddiaeth ac i ganolbwyntio sylw ar ICZM yn ardal INTERREG De Môr lwerddon.